Iechyd yn y carchar

Derbyn triniaeth feddygol yn y carchar

Os ydych yn y carchar, fe ddylech dderbyn yr un gwasanaethau iechyd ag y byddech yn ei gael gan GIG. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau iechyd meddwl. Mae doctoriaid, deintyddion, fferyllwyr a nyrsys cymwys yn darparu gofal iechyd yn y carchar. Os ydych chi am weld doctor, gofynnwch i staff yr asgell. Dywedir wrthych os oes trefniant gwahanol yn eich carchar.

Os oes gennych broblem feddygol na ellir ei thrin gan staff meddygol y tu mewn i'r carchar, gellir dod ag arbenigwr i mewn o'r tu allan. Neu fe ellir eich symud i garchar arall lle mae cyfleusterau gwahanol ar gael neu eich symud i ysbyty GIG leol. Os ydych chi mewn ysbyty GIG, rydych chi o hyd o dan reolaeth y Gwasanaeth Carchardai.

Alla i wrthod triniaeth feddygol
Fe allwch chi wrthod unrhyw driniaeth feddygol a gynigir i chi yn y carchar, yn cynnwys triniaeth seiciatryddol, oni bai y byddai hyn yn fygythiad i'ch bywyd chi neu fywyd rhywun arall. Sut bynnag, os oes gennych broblem iechyd meddwl ddifrifol, fe allech chi gael eich **anfon i ysbyty'r meddwl,** hynny yw, mynd â chi i ysbyty seiciatryddol heb eich caniatâd.

Meddyginiaethau

Os ydych yn y carchar, ni chaniateir i chi gadw unrhyw feddyginiaethau yr oeddech yn eu cymryd y tu allan i'r carchar. Os oes angen meddyginiaeth arnoch, gwnewch yn siwr eich bod yn dweud wrth y doctor cyn gynted ag y cyrhaeddwch chi'r carchar. Os ydyw'r doctor yn penderfynu fod angen meddyginiaethau arnoch, fe'u darperir ac fe'u rhoddir i chi eu cadw eich hun neu eu rhoi allan gan y staff meddygol adeg triniaeth. Os ydych yn dioddef o'r fogfa (asma), rhoddir ymanadlwr i chi os ydyw'r doctor yn credu mai dyma'r driniaeth iawn. Mae rhai carchardai yn gwrthod caniatâd i gadw ymanadlwyr yn y gell dros nos. Os yw hyn yn broblem i chi, siaradwch â'r doctor ac os na chaiff y broblem ei datrys, ystyriwch gwyno.

Cofnodion Iechyd

Mae gennych yr hawl i weld unrhyw wybodaeth a ychwanegwyd at eich cofnodion meddygol ar ôl 1 Tachwedd 1991, oni bai ei fod yn debygol o achosi niwed meddyliol neu gorfforol difrifol i chi neu rywun arall. Nid oes hawl gennych i weld cofnodion a wnaed gan ddoctoriaid ar gyfer y llysoedd neu fwrdd parôl.

Os ydych chi am weld eich cofnodion meddygol, gofynnwch i'r doctor yn ystod apwyntiad neu ysgrifennwch a gofyn. Os ydych chi'n credu fod rhywbeth yn y cofnod sy'n anghywir neu'n gamarweiniol, fe allwch wneud cais am iddo gael ei gywiro. Os na ellir ei gywiro, rhaid ychwanegu nodyn at y cofnodion sy'n nodi eich bod chi'n credu eu bod yn anghywir.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Cleifion sy'n ddifrifol wael

Os ewch chi'n ddifrifol wael, gofynnwch i'r rheolwr am roi gwybod i'ch teulu. Efallai y caniateir ymweliadau ychwanegol. Os ewch chi mor wael fel na fydd disgwyl i chi wella, efallai y cewch chi'ch rhyddhau o'r carchar, ar sail dosturiol, er enghraifft, i hosbis neu i ofal ffrindiau neu deulu.

HIV/AIDS

Nid oes rhaid i chi gael prawf ar gyfer HIV wrth fynd i'r carchar. Os gofynnir i chi a ydych am gael prawf, fe allwch chi wrthod.

Y prif beryglon o gael eich heintio gan HIV yn y carchar ydyw rhyw diamddiffyn a rhannu nodwyddau. Nid oes cynlluniau cyfnewid nodwyddau mewn carchardai. Mae condoms ar gael mewn carchardai os ydyw'r doctor yn credu fod perygl o heintio. Mae condoms ar gael hefyd os ydych chi'n mynd i gael eich rhyddhau o'r carchar dros dro.

Os ydych chi'n ofni eich bod yn HIV positif, fe allwch ofyn am brawf HIV. Mae gennych yr hawl i gael eich cynghori cyn cytuno i gael prawf ac ar ôl cael y prawf, beth bynnag fo'r canlyniad. Ni ddylai staff gofal iechyd a chynghorwyr ddweud wrth unrhyw un am eich cyflwr. Os ydyw'n hysbys eich bod yn dioddef o AIDS neu'n HIV positif, efallai y cewch eich rhoi mewn cell ar eich pen eich hun. Os nad ydych am hyn, siaradwch â'r doctor neu gwnewch gwyn.

Os ydych yn dioddef o AIDS neu'n HIV positif, cewch eich trin o dan oruchwyliaeth arbenigwr. Fel arfer fe ewch i glinig allanol. Fe gewch chi feddyginiaeth gan yr arbenigwr yno.

Os ydych yn dioddef o AIDS, fe allwch chi wneud cais am gael eich rhyddhau'n gynnar ar sail tosturi. Oni bai eich bod yn sâl iawn, gwrthodir y ceisiadau hyn yn gyffredinol, er bernir pob achos yn unigol. Os ydych yn y sefyllfa hon, mynnwch gyngor arbenigol.

Cyffuriau ac alcohol

Os oedd gennych broblem cyffuriau neu alcohol cyn i chi ddod i'r carchar, gofynnwch i'r doctor am help cyn gynted ag sy'n bosibl. Efallai y rhoddir methodone fel detox i rai sy'n gaeth i heroin. Os gwrthodir rhoi methodone i chi, fe allai hyn fod yn torri ar eich hawliau dynol ac fe ddylech chi gael cyngor arbenigol ynglŷn â hawlio iawndal. Yn gyffredinol nid oes triniaeth hirdymor ar gyfer dibyniaeth ar gael mewn carchardai ond mae yna rai carchardai sydd â rhaglenni arbennig. Os nad oes rhaglen arbennig yn eich carchar chi, efallai y gall y doctor drefnu eich bod yn cael cefnogaeth a thriniaeth gan asiant allanol megis Narcotics Anhysbys neu Alcoholigion Anhysbys. Mae gan bob carchar weithwyr arbennig sydd â'r gwaith o roi cefnogaeth i garcharorion â phroblemau cyffuriau.

Efallai y gofynnir i chi roi sampl wrin i brofi ar gyfer cyffuriau. Rhaid i chi roi sampl os gofynnir i chi. Mewn rhai carchardai, mae yna esgyll sy'n rhydd o gyffuriau ond

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

mae'n rhaid i chi gytuno i brofion wrin rheolaidd os ydych chi am fod yn un o'r esgyll hyn.

Os ydych chi'n profi'n bositif ar gyfer cyffuriau, gellir trin hyn fel trosedd ddisgyblaethol o fewn y carchar. Ond os darganfyddir chi â chyffuriau caled neu os fyddan nhw'n meddwl eich bod yn cyflenwi cyffuriau i garcharorion eraill, byddwch yn derbyn dedfryd arall o garchar y bydd yn rhaid i chi ei dilyn ar ddiwedd eich dedfryd bresennol. Mewn rhai achosion, fe gewch eich trosglwyddo i garchar gwahanol.

Problemau iechyd Meddwl

Mae llawer o garcharorion yn dioddef problemau iechyd meddwl. Yn y mwyafrif o garchardai, mae yna unedau arbennig sy'n gallu rhoi triniaeth arbenigol ac mae gan bob carchar fynediad i'r unedau hyn pan fydd angen.

Os ydych chi'n poeni am y cyffuriau a roddir i chi oherwydd problem iechyd meddwl, gofynnwch i'r doctor am fanylion ynglŷn â'r cyffuriau, yn cynnwys y sgil effeithiau. Fe allwch chi wrthod cymryd y cyffuriau os ydych yn dymuno. Allan nhw ddim eich profi am gyffuriau heb eich cytundeb chi.

Mewn rhai achosion, fe allech gael eich anfon i ysbyty'r meddwl. Dyma pryd yr anfonir chi i ysbyty seiciatryddol heb eich cytundeb. Mae'r amser a dreulir mewn ysbyty seiciatryddol yn cyfrif tuag at eich dedfryd. Chewch chi ddim eich rhyddhau ar ddiwedd eich dedfryd os ydych chi'n dal yn sâl yn feddyliol.

Os ystyrir eich bod mewn perygl o ladd eich hun neu mewn perygl o niweidio'ch hun, cynllunnir cynllun cefnogi. Efallai y cewch eich gosod mewn asgell arbennig neu fe ddaw staff i siarad â chi yn amlach er mwyn gwirio eich bod yn OK. Fe allwch chi a'ch teulu gysylltu â'r Samariaid os oes pryderon ynglŷn ag hunan laddiad. Efallai bydd yna gynllun Bydi neu Wrandäwr yn y carchar all helpu.

Marwolaeth yn y carchar

Os yw carcharor yn marw yn y carchar, rhaid i'r rheolwr hysbysu'r perthynas agosaf ar unwaith. Mae hyn yn berthnasol sut bynnag fydd y carcharor yn marw, er enghraifft, trwy hunanladdiad, damwain, salwch neu henaint. Ymhob achos lle mae marwolaeth wedi digwydd, gelwir ar y crwner i archwilio'r corff. Cynhelir cwest i benderfynu sut y digwyddodd y farwolaeth. Bydd ymchwiliad i bob marwolaeth yn y carchar gan yr heddlu a'r Ombwdsmon Carchardai a Phrawf.

Fel arfer y perthynas agosaf fydd yn gyfrifol am dalu am gladdu carcharor sy'n marw yn y carchar. Os na all y perthynas agosaf fforddio talu, bydd y carchar yn cynnig helpu gyda threuliau'r angladd. Os nad oes gan y carcharor deulu neu os na fyddant am drefnu'r angladd, bydd y carchar yn gwneud y trefniadau.

Cwynion ynglŷn â gofal iechyd yn y carchar

Os oes gennych broblemau ynglŷn â'ch gofal iechyd yn y carchar, fe allwch gwyno trwy ddefnyddio trefn gwyno GIG. Gweler o dan Cymorth ychwanegol.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Mae yna sefydliad arbenigol o'r enw ICAS sy'n gallu helpu carcharorion yn Lloegr i gwyno am wasanaethau GIG. Ar gyfer eu manylion cyswllt, gweler ein taflen ffeithiau a elwir yn Carcharorion - cwyno.

Efallai y bydd gan y carchar hefyd Wasanaeth Cyswllt a Chyngor i Gleifion (PALS). Efallai y byddan nhw'n gallu eich helpu i ddatrys eich problem neu roi gwybodaeth i chi ynglŷn â sut i gwyno.

Yng Nghymru, gall y Cyngor Iechyd Cymuned eich helpu gyda chwynion. Fe allwch gael manylion cyswllt eich Cyngor Iechyd Cymuned lleol os ffoniwch chi: 0845 644 7814.

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys unrhyw fath o broblem.

Mae rhai Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhedeg sesiynau cyngor yn y carchar. Os ydych yn y carchar, holwch os ydynt yn cynnig y sesiynau hyn yn eich carchar chi. Os nad ydynt yn rhedeg sesiynau cyngor, mae'n bosib i chi ysgrifennu at eich CAB lleol gan esbonio eich problem. Gofynnwch i aelod o staff y carchar am gyfeiriad eich CAB lleol.

Os nad ydych yn y carchar, ac rydych chi am ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy'r e-bost, cliciwch ar CAB agosaf neu chwiliwch o dan C yn eich llyfr ffôn.

Y Gwasanaeth Cynghori Carcharorion (PAS)
Blwch post 46199
Llundain
EC1M 4XA

Rhif ffôn: 020 7253 3323 / 0845 430 8923 (dydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener 9:30am – 1:00pm a 2:00pm – 5.30pm)
Ffacs: 020 7253 8067
E-bost: advice@prisonersadvice.org.uk
Gwefan: www.prisonersadvice.org.uk

Mae'r Gwasanaeth Cynghori Carcharorion (PAS) yn darparu cyngor a gwybodaeth i garcharorion ynglŷn â'u hawliau fel carcharorion. Nid yw PAS yn delio â chamwedd neu apeliadau yn derbyn euogfarn neu ddedfryd.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Cwynion GIG a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn Lloegr
- Cwynion GIG yng Nghymru
- Cofnodion meddygol
- Carcharorion - cwyno
- Carcharorion - cael cymorth ychwanegol

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 18 Hydref 2010, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawr lwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr